TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Dyddiad cyhoeddi:** 31 Awst 2021

# Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydym yn ysgrifennu atoch mewn ymateb i'ch cais Rhyddid Gwybodaeth, a gafodd ei fireinio yn unol â'r argymhellion roeddem ni wedi'u gwneud i chi ar 16 Awst. Mae eich cais newydd wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

**Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:**

> *"A wnewch chi roi manylion gwario eich is-gwmni Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig (TFWRL) yn unig ar gerdyn credyd a cherdyn debyd rhwng 07/02/2021 (diwrnod gweithredu cyntaf) a 25/07/2021 (y diwrnod yr oeddwn wedi gwneud fy nghais gwreiddiol) gan ddangos dyddiad y taliad a diben y taliad os gwelwch yn dda."*

**Ar ôl adolygu eich cwestiynau, rydym ni'n gallu darparu'r wybodaeth ganlynol:**

| Dyddiad y trafodyn | Swm y Trafodyn | Swm Treth | Swm Trafodyn Net | Disgrifiad o'r Treuliau |
|---|---|---|---|---|
| 08/05/2021 | 159.00 | .00 | 159.00 | Trwydded Deledu ar gyfer Gorsaf Drenau Y Fenni |
| 12/05/2021 | 3.45 | .00 | 3.45 | Profi 2 x pryniant m-docyn ar gyfer swyddogaeth Ap WebTis 2 ar gyfer Imaginet |
| 29/06/2021 | 107.88 | .00 | 107.88 | Prynu tanysgrifiad Canva ar gyfer cynhyrchu graffeg ar gyfer siartiau sefydliadol |
| 07/07/2021 | 375.00 | .00 | 375.00 | Talu am lety brys i griwiau trenau yn sgil llifogydd yng Ngorsaf Crewe |
| 09/07/2021 | 51.50 | .00 | 51.50 | Prynu eitem ewyllys da ar gyfer aelod o staff Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf. Eithriad wedi'i ganiatáu |
| 15/07/2021 | 16.55 | .00 | 16.55 | Profi tocyn tymor cerdyn clyfar ar gyfer swyddogaeth Ap WebTis |
| 16/07/2021 | 126.00 | 21.00 | 105.00 | Talu tanysgrifiad proffesiynol ardystiad - IWFM |
| 21/07/2021 | 1.20 | .00 | 1.20 | Prynu cod bar ar gyfer profi Masabi Inspector ar Zebra |

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd i chi.

Yn gywir,

**Trafnidiaeth Cymru**

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Hawliau Apelio**

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno o fewn 40 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr hwn. Os na fyddwch chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: https:/ico.org.uk/make-a-complaint/

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gyhoeddus".